

Cyfarfodydd gyda Myfyrrwyr

Er mwyn Cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod ni yn caniatáu ac yn annog myfyrrwyr i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Mae'r tabl isod yn egluro sut i ddelio â materion iaith yn ddibynnol ar y math o gyfarfod sy'n cael ei drefnu:

Math o gyfarfod	Disgrifiad	Iaith
A	Cyfarfodydd gyda darlithydd / goruchwyliwr i drafod gwaith academiaidd	Yn ôl yr arfer sydd wedi cael ei sefydlu rhwng yr unigolion
B	Cyfarfodydd 'lles' (gyda cwnselydd, cynghorydd iechyd meddwl, tiwtor personol) neu Cyfarfodydd sy'n trafod cwyn am / gan fyfyrwr / cyfarfodydd disgyblu	Dewis iaith y myfyriwr. Hynny ydy, bydd cyfarfod Cymraeg yn cael ei gynnal yn Gymraeg heb gyfieithu ar y pryd.
C	Cyfarfodydd 'cyffredinol' sydd ddim yn disgyn i gategori A neu B.	Dewis iaith y myfyriwr os yn bosib. Fel arall, bydd angen trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu sicrhau bod 'hwylusydd iaith' yn y cyfarfod.

Mae'r canllawiau isod yn berthnasol i gyfarfodydd yng nghategori C

Cam 1: Trefnu'r Cyfarfod

- Hysbysebu'r Cyfarfod yn ddwyieithog / gyrru gwahoddiadau yn ddwyieithog
- Nodi ar yr hysbyseb / gwahoddiad fod croeso i fyfyrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod
- Gofyn i fyfyrwr sydd yn dod i'r cyfarfod nodi pa iaith maen nhw'n dymuno ei ddefnyddio yn y cyfarfod (unai ar gyfer cyflwyniad gan fyfyrwr neu fel aelod o'r pwyllgor/cynulleidfa). Dyma eiriad ar gyfer hyn:

Mae croeso i bob myfyriwr siarad Cymraeg neu Saesneg yn ystod cyfarfod _____ . A wnewch chi gadarnhau erbyn _____ pa iaith rydych chi'n dymuno ei ddefnyddio yn y cyfarfod fel ein bod yn gallu gwneud trefniadau: Cymraeg, Saesneg, Cymraeg a Saesneg

Cam 2: Iaith y Cyfarfod

- Penderfynu a oes angen archebu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu drefnu bod 'hwylusydd Cymraeg'* yn y cyfarfod. Cyfeiriwch at y siartiau isod.

**Hwylusydd Cymraeg ydy aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac sydd yn gallu crynhoi/aralleirio cwestiwn Cymraeg, fel arfer yn dilyn cyflwyniadau.*

- Os yw cyfarfod yn un dwyieithog / cyflwyniadau yn ddwyieithog, trefnu bod papurau (agenda a chofnodion) yn cael eu cyfieithu. Cyfeiriwch at y siartiau isod.

Cam 3: Yn y Cyfarfod

- Ar ddechrau'r cyfarfod, rhoi gwybod i bawb fod croeso iddyn nhw siarad Cymraeg yn y cyfarfod.
- Os yn bosib, cadeirio'r cyfarfod yn Gymraeg / yn ddwyieithog. Dyma ganllawiau ar gyfer cadeirio cyfarfod dwyieithog:

<https://www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/cadeirio.php.cy>

Cyfarfodydd gyda Myfyrwyr

